CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y cyfarfod: **17/07/24**

Teitl: **Rhaglen Gweithgareddau Strategol / Rali Ceredigion – cefnogaeth CSC**

Pwrpas yr adroddiad: **Ystyried y cymorth ariannol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer Rhaglen Gweithgareddau Strategol 2024, a Rali Ceredigion fel rhan o'r rhaglen.**

Er: **Penderfyniad**

Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:
Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio

Cefndir

Rhaglen Gweithgareddau Mawr Ceredigion

Er mwyn cyflawni Strategaeth Economaidd Ceredigion, mae CSC wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglen o weithgareddau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

i. Yn datblygu'n naturiol drwy broses 'o'r gwaelod i fyny' gan gynnwys amrywiaeth o bartneriaid o'r sector gyhoeddus, y sector breifat a'r trydydd sector. Bydd gweithgareddau' cael eu nodi, eu datblygu a'u cefnogi drwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, er mwyn sicrhau sylfaen eang o gefnogaeth.

ii. Mae gweithgareddau'n cael eu datblygu, yn seiliedig ar un neu fwy o gryfderau lleol allweddol - h.y. bydd gweithgareddau'n BERTHNASOL i'r ardal. Bydd hyn yn helpu i adeiladu cefnogaeth, ac yn galluogi pobl i fod yn frwdfrydig amdanynt, gan sicrhau bod ymwelwyr a chyfranogwyr yn gallu rhannu'r brwdfrydedd hyn. Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau ymrwymiad i'r Gweithgareddau a chefnogaeth rhag tarfu tymor byr (o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr, cau ffyrdd ac ati). Gall cryfderau fod yn gysylltiedig â, ond heb fod yn gyfyngedig gan:

   a. Yr amgylchedd naturiol
   b. Cryfderau diwylliannol a / neu dreftadaeth Ceredigion
   c. Diddordebau penodol sy'n berthnasol i'r ardal
   d. Diddordeb cryf gan y sector busnes

iii. Bydd angen bod y gweithgareddau'n helpu i gyflawni un neu fwy o nodau strategol Cyngor Sir Ceredigion, gan alinio â rhai'r rhanbarthol a Llywodraethau Cymru a'r DU.
   a. Cefnogi uchelgeisiau ynghylch newid yn yr hinsawdd neu'r newid i economi werdd drwy gynaliadwyedd a lleihau gwastraff.
   b. Cefnogi datblygiad swyddi o werth uwch a'r egwyddor o waith teg.

iv. Bydd angen i’r gweithgareddau gyfrannu'n amlwg at effeithiau economaidd allweddol, gan gynnwys:

a. Denu ymwelwyr
b. Trosoledd buddsoddiad gan y sector preifat
c. Cefnogi creu swyddi
d. Cefnogi twf busnesau cysylltiedig (buddion anuniongyrchol i fusnesau)
e. Tystiolaeth o fanteision i’r Sir gyfan
f. Tystiolaeth, lle bo hynny'n bosibl o fanteision rhanbarthol a chenedlaethol ehangach

Er mwyn cynyddu datblygiad gweithgareddau yng Ngheredigion, lansiodd CSC wahoddiad i ddenu ceisiadau gan sefydliadau sy'n ceisio egnïo gweithgareddau newydd neu ddatblygu rhai sy'n bodoli eisoes er mwyn cefnogi'r rhaglen strategol, fel rhan o raglen Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) i gefnogi'r economi yng Ngheredigion.

Un o'r prif weithgareddau sy'n cael ei gefnogi drwy'r rhaglen yw Rali Ceredigion.

Rali Ceredigion

- Mae Rali Ceredigion (Rali Bae Ceredigion gynt) wedi cael ei ddatblygu a'i redeg yn llwyddiannus drwy bartneriaeth o Glybiau Modur yng Ngheredigion, gyda chefnogaeth gan Gyngor Sir Ceredigion hyd yma wedi'i ddarparu drwy gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.
- O’r tri gweithgaredd hyd yma (2019, 2022 a 2023), mae’r llwyddiant ac effaith y gweithgaredd wedi cynyddu. Mae wedi cynhyrchu ymweliadau newydd â Cheredigion (yn enwedig ardal Aberystwyth).
- Mae Rali Ceredigion wedi ymrwymo i wella ei berfformiad o safbwynt cynaliadwyedd, ac ar ôl gweithgaredd 2023 hon oedd y rali gyntaf yn y DU i dderbyn Achrediad Amgylcheddol FIA dwy seren.
- Yn 2024, mae Rali Ceredigion wedi sicrhau ei le fel rownd ym Mhencampwriaeth Rali Ewrop, a fydd yn arwain at sylw gan y cyfryngau a manteision ehangach i'r economi yng Ngheredigion.
- Bydd y rali yn cwmpasu ardal ehangach yng Ngheredigion yn 2024, gyda rhan o ganolbarth Ceredigion hefyd wedi'i chynnwys fel rhan o'r ras, gan ehangu'r potensial economaidd i'r economi ymwelwyr. Mae hefyd yn cynnwys rhannau o Bowys a Sir Gaerfyrddin.

Sylw’r Wasg

Yn 2023, cafodd sylw sylweddol ar draws ystod o gyfryngau cymdeithasol a sianeli ffrydio. Cofnodwyd y ffigurau canlynol rhwng 30 Awst a 6 Medi:

Cyfanswm nifer y cyrhaeddwyd ar lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol Rali Ceredigion:	508,000
Cyfanswm y nifer a wyliodd fideo ar lwyfannau gweithgareddau Rali Ceredigion:	529,000
Cyfranogiad ar-lein:	146,077

Sylw cyfryngau cymdeithasol a etifeddwyd:	500,000+
Cyfanswm y nifer y wyliodd fideo ar lwyfannau Partner Cyfryngau trwy Lwyfan Special Stage, British Rally Championship, TER Series, Ralio S4C:	10miliwn+
Rhaglenni wedi'u hargraffu a ddosbarthwyd:	8000

Gyda statws rhyngwladol a chynnydd yn yr apêl i wylwyr nawr, credir y bydd lefel y sylw yn cynyddu 400% yn ystod 2024.

Effaith Economaidd

Y manteision economaidd y mae'r rali yn eu cynnig i Gymru, Aberystwyth a'r rhanbarth yw prif ffocws trefnwyr y gweithgaredd.

Mae'r data a gasglwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn dangos yn glir bod y gweithgaredd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i economi'r rhanbarth:

Effaith Rhanbarthol Uniongyrchol:	£3.02 miliwn
Cymhareb Gwariant yn erbyn Gwerth Ychwanegol Gros:	45%
Nifer y gwylwyr:	20,000
Cystadleuwyr o'r tu hwnt i Gymru:	64%

Mae'r sectorau sy'n elwa yn cynnwys:
- Gwestai a thai llety
- Tafarndai, bwytai a lleoliadau lletygarwch
- Siopau a safleoedd manwerthu
- Garejis a chyflenwyr cynhyrchion ar gyfer moduron
- Cyflenwyr gwasanaethau ategol

Cyfrifir ffigurau gan ddefnyddio cyfrifiannell *eventIMPACT,* sef dull cymeradwyol ar gyfer sefydlu'r effaith economaidd a gynhyrchir gan weithgareddau, sy'n cael ei gydnabod gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant neu sector o economi.

Bydd cyflwyno Pencampwriaeth Rali Ewrop FIA yn 2024 yn cynyddu presenoldeb gwylwyr, cystadleuwyr, marsialiaid a swyddogion yn sylweddol ac, wrth wneud hynny, mae'r trefnwyr yn rhagweld cynnydd o 100% o leiaf yn y budd economaidd.

Ceisiadau am gyllid

Rhaglen Weithgareddau Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU

Yn seiliedig ar y meini prawf a nodir uchod, derbyniwyd ceisiadau gan 9 sefydliad, sy'n gyfanswm gwariant prosiect o £1.44m.

Cymeradwyodd partneriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU Ceredigion wariant o £300,000 at y rhaglen, ac aseswyd y ceisiadau yn erbyn y meini prawf a nodwyd gan banel o swyddogion mewnol. Ar y sail hon, cyflwynwyd cynnig Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i 6 gweithgaredd yng Ngheredigion.

Rali Ceredigion
Er mwyn sicrhau statws rownd ym Mhencampwriaeth Rali Ewrop, mae angen ymrwymiad ariannol o hyd at £500,000 o ffynonellau cyhoeddus. Mae trefnwyr Rali Ceredigion yn rhagweld y byddan nhw'n cynhyrchu £500,000 ychwanegol eleni o ffynonellau preifat i gefnogi isadeiledd y gweithgaredd.

Mae angen arian cyhoeddus i gefnogi marchnata a hyrwyddo'r gweithgaredd drwy gwmni *WRC Promoter GmbH*. Bydd yn talu am y seilwaith a fydd yn galluogi cysylltiad byd-eang â'r cyfryngau i'r gweithgaredd ac i'r ardal.

Mae'n ofynnol i bob gweithgaredd yng nghalendr Pencampwriaeth Rali Ewrop dalu ffi croesawu i WRC Promoter GmbH, y cwmni sy'n gyfrifol am agweddau masnachol Pencampwriaethau Rali Ewrop FIA a FIA y byd. Maent yn gyfrifol am gynyddu nifer y cystadleuwyr, datblygu cyfleoedd masnachol a chynnig lleoliadau ar gyfer calendrau Pencampwriaethau Rali Ewrop a'r Byd.

Mae Rali Ceredigion wedi ymrwymo i gytundeb 3 blynedd gyda WRC Promoter i gynnal rownd Brydeinig Pencampwriaeth Rali Ewrop. Mae'r cysywllt unigryw hwn yn dod â thîm cynhyrchu teledu o 80, sy'n gallu darlledu'r gweithgareddau'n fyw a'u syndiceiddio ledled y byd.

Mae'r cysywllt gyda'r hyrwyddwr hefyd yn sicrhau sylw fyd-eang gan y wasg a'r ystod o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sydd wedi'u cynllunio i arddangos y rhanbarthau lle mae'r ralïau'n digwydd gan gynhyrchu cynnydd i weithgarwch masnachol.

Amcangyfrifir mai cost lawn gweithgaredd Rali Ceredigion 2024 yw £984.5K. Mae dadansoddiad manwl o'r costau wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 (Eithriad).

Mae ffigurau effaith economaidd y blynyddoedd blaenorol yn dangos bod Rali Ceredigion eisoes wedi profi y gall gyflwyno elw sylweddol ar fuddsoddiad i'r economi leol. O'r herwydd, mae'r trefnwyr yn hyderus, fel rownd o Bencampwriaeth Rali Ewrop, y bydd y gweithgaredd yn parhau i ragori ar y disgwyliadau ar gyfer y rhanddeiliaid, busnesau a'r sefydliadau dan sylw.

Cyfleoedd ehangach

- Hyrwyddo Ceredigion yn fyd-eang i gynulleidfa ehangach drwy sylw Ewropeaidd (cynulleidfa bosibl o naw miliwn) – gan arddangos ein tirwedd naturiol eithriadol. Bydd brand Darganfod Ceredigion yn cael sylw sylweddol drwy'r rhaglen hyrwyddo gweithgareddau.
- Bydd y Cyngor yn dadansoddi ymweliadau â gwefannau allweddol (e.e. Darganfod Ceredigion) i fonitro'r effaith.
- Effaith sylweddol ar fusnesau lleol – ar draws y sectorau llety, lletygarwch a manwerthu.
- Hyrwyddo Ceredigion fel cyfranogwr allweddol posibl wrth gynhyrchu a defnyddio tanwydd adnewyddadwy (gan gynnwys Hydrogen)
- Hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sectorau moduron/peirianneg yng Ngheredigion. Mae'r trefnwyr eisoes yn ymgysylltu'n tipyn gyda'r ysgolion lleol.

Telerau Talu / Risgiau

- *Podium Promotions* Ltd yw'r cwmni sydd wedi'i sefydlu i drefnu Rali Ceredigion 2024.
- Mae'n gwmni sydd newydd ei sefydlu o dan reolaeth Charlie Jukes.
- Mae *Podium Promotions* wedi arwyddo cytundeb gyda *WRC Promoter* i'r hawliau gynnwys Rali Ceredigion fel rownd o Bencampwriaeth Rali Ewrop
- Efallai y bydd angen gwneud y taliadau cyn y gweithgaredd pan fo'r ffi croesawi yn ddyledus.

Ymgysylltu'r Rali

Yn ychwanegol ar gyfer 2024, mae'r trefnwyr wedi lansio menter sydd wedi'i chynllunio i gynyddu ac adeiladu ar y gwaith a'r hyn sydd wedi'i gyflawni eisoes ar lefel leol gan Rali Ceredigion. Bydd *Rali Engage* yn ymestyn cyrhaeddiad y gweithgaredd a'i gysylltiad â chymunedau ac ysgolion, ac ar yr un pryd yn datblygu ei hygrededd fel cwmni sy'n arwain y diwydiant o ran cynaliadwyedd.

Mae llawer o drefnwyr y gweithgaredd yn bobl leol sy'n frwdfrydig dros sicrhau bod y rali'n cael effaith wirioneddol gadarnhaol ar gymunedau Aberystwyth, ar draws Ceredigion a'r ardaloedd cyfagos. Wrth iddo ddatblygu'n rownd Ewropeaidd ac achlysur chwaraeon rhyngwladol mawr eleni, mae'r ffocws ar faterion lleol hyd yn oed yn fwy eleni.

Ar ôl sefydlu perthynas waith agos gyda busnesau, sefydliadau a thrigolion, bydd ymgyrch *Rali Engage* yn helpu i ddatblygu'r perthnasau hyn ac wrth wneud hynny, yn gweld mwy o bobl yn cymryd rhan ac yn darparu mwy o gyfleoedd masnachol. Bydd gwaith y gweithgaredd gydag ysgolion yn cynnwys pynciau pwysig fel diogelwch ar y ffyrdd, iechyd a lles, cymryd rhan mewn chwaraeon, gweithio yn y diwydiant moduron a datblygiad trafnidiaeth gynaliadwy.

Drwy flaenoriaethu a chychwyn ar y mentrau hyn, mae'r trefnwyr yn hyderus y bydd *Rali Engage* yn galluogi'r gweithgaredd i adeiladu etifeddiaeth barhaol a fydd yn cyflwyno buddion a chyfleoedd i gymunedau, sefydliadau ac unigolion am flynyddoedd lawer i ddod.

Cyllid

Mae cyllideb wedi'i neilltuo o fewn rhaglen CFfGLl Ceredigion i gefnogi gweithgareddau mawr yng Ngheredigion. Mae cyfanswm o 6 gweithgaredd yn cael eu cefnogi gyda buddsoddiad cyfunol o £292,000 o ffynonellau CFfGLl.

O fewn y rhaglen weithgaredd hon, mae £100k o Gyllid CFfGLl cychwynnol wedi'i ddyrannu a'i gytuno gan y Bwrdd Partneriaeth i gefnogi gweithgaredd Rali Ceredigion 2024, yn erbyn cyfanswm cais am hyd at £500,000. Bydd hyn yn codi i £150k o ganlyniad i fuddsoddiad o £50k mewn digwyddiadau eraill o ffynonellau'r Cyngor fel y nodir isod:

Mae gan y Cyngor hefyd arian yn y Gronfa Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth, sydd wedi'i neilltuo'n benodol i gefnogi'r Amcan Llesiant Corfforaethol cysylltiedig. Mae hwn ar ffurf cyllid untro o ac unwaith y caiff ei wario yna nid yw'n bodoli mwyach, felly mae angen ei wario'n ddoeth. Y balans yn y gronfa hon sydd wedi'i chlustnodi ar 31/03/24yw £7.5m. Mae'r arian wrth gefn hwn sydd wedi'i

chynyddu'n ofalus ac yn ddoeth dros sawl blwyddyn, gyda defnydd o'r arian wrth gefn i'w ganolbwyntio ar flaenoriaethu a thargedu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf ac er mwyn elwa o'r buddsoddiadau economaidd a wnaed. Dim ond unwaith y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi ac unwaith y mae wedi'i wario, nid ydynt i'w cael fel adnodd cylchol.

Ar ôl ystyried yr achos busnes economaidd ehangach sy'n dangos manteision economaidd sylweddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen weithgareddau, mae Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio yn bwriadu dyrannu hyd at £400mil i gefnogi'r buddsoddiad i raglen Gweithgareddau Ceredigion.

O'r £400k a fuddsoddwyd yn y rhaglen ddigwyddiadau:

- Bydd £50k yn mynd i ariannu pum digwyddiad yn rhannol ar draws Ceredigion,
- Bydd £100k yn cael ei ddyfarnu i Rali Ceredigion

Byddai'n briodol i'r Cabinet ystyried unrhyw fuddsoddiad pellach y tu hwnt i'r lefel hon, ac er bod achos busnes, mae'r cyfrifoldeb ar y trefnwyr/sefydliadau o ran unrhyw weithgaredd neu brosiect yn y sector preifat, i'w gwneud yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn ariannol gan beidio â dibynnu'n ormodol ar arian cyhoeddus. Gyda hynny mewn golwg, ac o nodi bod y trefnwyr yn gofyn am gyfanswm o £500mil, gallai'r Cabinet (os ydi'n dymuno) gytuno i warantu swm pellach o £250mil tuag at weithgaredd Rali Ceredigion 2024 i'w ariannu o gyllideb Tyfu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cronfa Gyflogaeth.

Byddai'r dull gweithredu hwn ar y sail bod y Cyngor yn disgwyl i'r trefnydd/trefnwyr barhau i chwilio a gwneud y gorau o'r holl ffynonellau incwm nawdd ac incwm eraill. Fodd bynnag, os bydd diffyg ariannol cyffredinol ar gyfer digwyddiad 2024, yna yn ogystal â £150mil o gyllid CFfGLl + £100mil o gyllid yr economi, gallai'r Cyngor wario uchafswm ychwanegol o £250mil os bydd tystiolaeth yn dangos bod diffyg ariannol. Byddai angen i'r dull hwn hefyd sicrhau nad oes cyfle i'r trefnwyr wneud elw gormodol a/neu wneud benthyciadau Cyfarwyddwyr neu dalu difidendau a/neu ddeddfu trosglwyddiadau rhyng-gwmnïol gyda phartïon cysylltiedig ynghlwm.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam.

Na, cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig llawn wrth ddatblygu'r Strategaeth Economaidd ac f'ystyriwyd effaith gweithgareddau mawr ar economi Ceredigion bryd hynny.

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Amherthnasol
Cydweithio:	Amherthnasol
Cyfranogiad:	Amherthnasol
Atal:	Amherthnasol
Integreiddio:	Amherthnasol

Argymhelliad(au):
Cytuno i warantu hyd at £250mil ychwanegol ar gyfer digwyddiad Rali Ceredigion 2024, gydag unrhyw wariant yn erbyn y swm hwn i'w dystiolaethu'n

briodol, ac wedi'i ariannu o'r Gronfa Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth, wrth gefn.

Rhesymau dros y penderfyniad:
Er mwyn cefnogi cyflwyno'r rhaglen weithgareddau yng Ngheredigion a galluogi cynnal Rali Ceredigion llwyddiannus yn 2024 fel rownd o'r Bencampwriaeth Rali Ewrop.

Trosolwg a Chraffu:
Dim

Fframwaith Polisi:
Cyflwyno Strategaeth Economaidd Ceredigion. Mae'r arian wrth gefn ar gyfer Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth wedi'i dyrannu i'r perwyl hwn.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Fel yr amlinellwyd yn adran ariannu'r adroddiad

Goblygiadau cyfreithiol:
Dim

Goblygiadau staffio:
Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:
Bydd peth incwm yn cael ei gynhyrchu ar gyfer defnydd asedau drwy'r gweithgaredd.

Risg(au):
Risg i enw da Ceredigion os na fydd y gweithgaredd yn digwydd

Pwerau Statudol:

Papurau Cefndir:
'The value to the UK of hosting major sporting events'

Atodiadau:
Atodiad 1- Dadansoddiad llawn o'r costau *(Eithriedig)*

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio

Swyddog Adrodd:
Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol: Twf a Menter

Dyddiad:
10.07.24